

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned

# Gwneud ImPACT

Paratowyd gan Mike Corcoran, Ymchwilydd ar Ymweliad, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

EBRILL 2021

Adroddiad wedi ei ariannu ar y cyd gan PACT a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam

GOGLEDD CYMRU PACT NORTH WALES

Bywydau gwell i unigolion

96% o brosiectau yn arwain at newidiadau bywyd cadarnhaol i'r bobl maen nhw'n cefnogi

94% o brosiectau yn arwain at welliant yn y berthynas rhwng yr heddlu a'r gymuned

Mwy o gefnogaeth i'r heddlu

Cymunedau mwy diogel

98% o brosiectau yn cael effaith gadarnhaol ar flaenoriaethau plismona

97% o brosiectau yn arwain at newidiadau cadarnhaol i sefydliadau

Cyfraniad sy'n barhaus

"Rhan bwysig o'r teulu plismona"

# Gwneud ImPACT

# Gwneud ImPACT:
# **Rhagair**

Mae Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru (PACT) wedi bod yn cynorthwyo mentrau cymunedol am dros 20 mlynedd ledled ein rhanbarth.

Fel elusen annibynnol mae'n gweithio law yn llaw gyda'i phrif arianwyr Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, Gwirfoddolwyr a rhwydwaith o bartneriaid yng Ngogledd Cymru i gyd yn hanfodol wrth alluogi a chyflawni prosiectau sy'n anelu i wella ansawdd bywyd drwy leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau. O Wynedd yn y gorllewin draw i Sir y Fflint a Wrecsam yn y dwyrain, mae PACT yn parhau drwy Ogledd Cymru er mwyn cynorthwyo prosiectau sy'n galluogi datblygiad cymunedol cadarnhaol a chynaliadwy. Nid yw'r cymorth cymunedol erioed wedi bod yn bwysicach na rŵan ynghanol pandemig Covid-19.

Fel gyda phob sefydliad, mae'n bwysig ein bod yn adolygu ein cyflawniad yn gyson. Gyda hyn mewn golwg fel Cadeirydd newydd yr Ymddiriedolwyr o fis Ebrill 2020, roeddwn yn awyddus iawn ein bod yn gwneud. Roeddwn felly'n hapus ein bod wedi comisiynu Mike Corcoran, ymchwilydd gwadd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam i gynnal adolygiad ImPACT annibynnol o'n gwaith.

Rwyf yn hapus i gyflwyno canlyniadau'r adolygiad hwn i'n rhanddeiliaid yng Ngogledd Cymru. Rwyf yn gobeithio y byddant yn eu cael yn llawn gwybodaeth, yn ddefnyddiol ac yn gynhyrchiol. Byddwn yn sicr yn eu defnyddio i arwain ein datblygiad yn y dyfodol yn uniongyrchol.

Mae PACT Heddlu Gogledd Cymru yn edrych ymlaen at gynorthwyo llawer mwy o brosiectau a all wneud gwahaniaeth cadarnhaol gwirioneddol i drigolion a chymunedau Gogledd Cymru.



Ashley Rogers
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
Ebrill 2021

# Gwneud ImPACT:
# Crynodeb Gweithredol

**Mae gwaith Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT) yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'n gwella bywydau unigolion, gan helpu sefydliadau i gynnal a datblygu gwasanaethau hanfodol, helpu cymunedau i ddod yn fwy diogel a chadarn, a helpu Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu ei wasanaeth yn fwy effeithiol.**

Mae PACT yn elusen annibynnol, a sefydlwyd ym 1998 ac a oruchwylir gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol, sy'n cefnogi mentrau cymunedol, yn enwedig y rhai y mae'r heddlu'n ymwneud â nhw, sy'n anelu at wella ansawdd bywyd drwy leihau troseddu ac ofn troseddu ym mhob un o gymunedau Gogledd Cymru. Mae'r ffordd y mae PACT yn cyflawni'r effaith hon yn gynnil. Nid yw'n ymwneud yn bennaf ag ymyriadau ar raddfa fawr, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau plismona yn uniongyrchol. I raddau helaeth, mae'r prosiectau y mae'n eu cefnogi yn rhai bychan, ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol i sydd wrth wraidd troseddu ac ofn troseddu.

Er bod y prosiectau y mae'n eu cefnogi yn amrywiol (o focsio i gefnogi'r digartref) ym mron pob achos maent yn ymwneud mewn rhyw ffordd neu'i gilydd pherthynas: o fewn cymunedau, a rhwng unigolion, cymunedau a'r heddlu. I lawer, yn enwedig pobl ifanc bregus a difreintiedig, gall prosiect a ariennir gan PACT fod y tro cyntaf iddynt erioed ymwneud â'r heddlu - gan wneud y rhyngweithio hwn yn un cadarnhaol ac sy'n gallu cael effaith fawr ar eu dewisiadau bywyd yn y dyfodol. Mae mesur yr effaith hon yn gywir yn eithriadol o anodd. Yn aml, mae PACT yn un o nifer o arianwyr ar gyfer prosiect penodol, ac mae prosiect yn un o nifer o ymyriadau sy'n cael eu darparu ar gyfer unigolyn neu gymuned. Er y gallai fod yn bosibl dod i'r casgliad bod prosiect yn meithrin hyder, gwybodaeth neu sgiliau, nid yw dangos sut y cyfrannodd hyn yn uniongyrchol at flaenoriaethau plismona ehangach yn wyddor hynod o fanwl. Fodd bynnag, yn bendant mae'r rheini sy'n cael cymorth PACT yn bendant eu barn ei fod yn gwneud cyfraniad gwirioneddol ac wedi rhannu llawer o straeon am lwyddiant, ac fel cyllidwr sydd â dull hyblyg â chyfnod cyflawni cyflym ar gyfer ceisiadau, dyma'r cam cyntaf yn aml ar daith i newidiadau sylweddol a pharhaol. Ar gyfer Swyddogion yr Heddlu a SCCH, mewn llawer o achosion nid oes dewis arall ond PACT.

Nid yw effeithiau PACT yn ymwneud â'r arian yn unig. Mae'r ffordd y mae PACT yn darparu'r cyllid yn hollbwysig. Mae diwylliant cefnogol, anffurfiol a hyblyg y sefydliad yn golygu llawer i'r rhai y mae'n eu hariannu ac mae'n caniatáu i'r effeithiau y mae'n eu cyflawni i gael llawer mwy o effaith na'r symiau cymharol fach o arian parod y mae'n eu darparu i brosiectau. Ond mae gwaith i'w wneud o hyd. Mae llawer o sefydliadau o hyd nad ydynt yn gwybod bod PACT yn bodoli, llawer o swyddogion yr heddlu a SCCH nad ydynt yn defnyddio cyllid PACT, a sawl ffordd y gellir newid a gwella gwasanaeth PACT.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau allweddol gwerthusiad o'r rhai sydd wedi bod yn ymwneud â phrosiectau a ariannwyd gan PACT yn ystod y 3 blynedd diwethaf, a'r cwestiynau allweddol y dylid eu harchwilio er mwyn sicrhau bod PACT yn parhau i wneud gwahaniaeth am flynyddoedd i ddod.

# Cyflwyniad:
# Am yr Adroddiad Effaith hwn

**Lansiwyd Ymddiriedolaeth Heddlu a Chymuned Gogledd Cymru (PACT) ym 1998 i gefnogi mentrau cymunedol, yn enwedig y rhai y mae'r heddlu'n ymwneud â nhw, sy'n anelu at wella ansawdd bywyd drwy leihau troseddu ac ofn troseddu ym mhob un o gymunedau Gogledd Cymru. Mae'n elusen annibynnol, a oruchwylir gan fwrdd gwirfoddol o ymddiriedolwyr.**

Ers 1998 mae PACT wedi cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau, gan fuddsoddi dros £1,000,000 mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru.

Ei amcanion yw buddsoddi mewn prosiectau sy'n:

1. Hyrwyddo ansawdd bywyd gwell drwy fentrau atal trosedd sy'n lleihau troseddu ac ofn troseddau troseddu ac yn amddiffyn pobl ac eiddo rhag gweithgarwch troseddol.
2. Hyrwyddo addysg camddefnyddio cyffuriau ac alcohol er mwyn lleihau troseddu.
3. Hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd fel rhan annatod o fywyd drwy hyfforddiant, addysg a phrosiectau arbennig.
4. Datblygu rhaglenni addysgol er budd pobl ifanc ac eraill.

Ym mis Awst 2020, comisiynodd PACT Mike Corcoran, ymchwilydd gwadd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam, i gynnal gwerthusiad o'i effeithiau mewn perthynas â'r amcanion hyn dros y tair blynedd diwethaf, ac awgrymu argymhellion ar gyfer PACT i wella'r effeithiau hyn yn y blynyddoedd i ddod.

Casglwyd data drwy:

- Arolwg ar-lein manwl: anfonwyd at bawb y dyfarnwyd arian PACT iddynt yn ystod y 3 blynedd diwethaf, gan dderbyn 69 o ymatebion.
- Cyfweliadau un i un: gyda sampl gynrychioliadol o 13 o sefydliadau, swyddogion yr heddlu a SCCH sydd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni prosiectau a ariannwyd gan PACT yn ystod y 3 blynedd diwethaf.
- Adolygiad o lenyddiaeth: adroddiadau blynyddol PACT, adroddiadau gwerthuso gan sefydliadau a ariannwyd a chyfryngau perthnasol eraill.

Yma rydym yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r gwaith hwn.

# Cyflwyniad:
# Gyda phwy y buom yn siarad?

Roedd ymatebwyr yr arolwg yn cynrychioli:

1. Pob rhan o Ogledd Cymru
2. Pob perthynas â phrosiectau a ariennir gan PACT.
3. Pob math o gymorth PACT.

Cynhaliwyd cyfweliadau un i un gydag is-set gynrychioliadol o ymatebwyr yr arolwg, fel arfer y rhai â phrofiad o fwy nag un prosiect a ariannwyd gan PACT




Lleoliad ymatebwyr yr arolwg

## Rolau ymatebwyr yr arolwg

- Rwy'n arwain prosiect/sefydliad sydd wedi cael cymorth gan PACT
- Rwy'n gweithio gyda phrosiect/sefydliad sydd wedi derbyn cefnogaeth gan PACT
- Rwy'n swyddog heddlu / SCCH sydd wedi gweithio gyda phrosiectau/sefydliadau sy'n derbyn cymorth gan PACT



## Cronfeydd y mae ymatebwyr yr arolwg wedi cael cymorth ganddynt



# Asesiad Effaith 1:
# Yr effaith ar gymunedau

Mae 92% o ymatebwyr yr arolwg yn credu bod y gymuned ehangach wedi elwa yn yr ardal lle digwyddodd eu prosiect.

"Mewn rhai achosion, nes i brosiectau ddigwydd, doedd cymdogion ddim yn adnabod ei gilydd"

## Newidiadau i gymunedau o ganlyniad i gyllid PACT




"Roedd gweld y bobl ifanc yn cefnogi'r henoed yn dod â deigryn i fy llygaid - roedd yn anhygoel"

### Rhoi'n ôl i Gymunedau

Mae llawer o brosiectau PACT yn cynnwys pobl ifanc yn gwneud pethau cadarnhaol yn y cymunedau lle maent yn byw. Mae llawer o fentrau bach a gychwynnwyd gyda chronfeydd PACT wedi parhau wedi hynny neu wedi arwain at greu prosiectau etifeddol cynaliadwy.

### Newid Canfyddiadau

Drwy gyfweliadau un i un disgrifiodd Swyddogion yr Heddlu a SCCH effaith cymunedau'n gweld camau ymarferol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â heriau ar garreg eu drws. Mae prosiectau a ariennir gan PACT yn helpu i gynyddu gwelededd yr heddlu, tawelu meddwl cymunedau, a gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel. I eraill, yn enwedig yr ifanc, maent yn newid canfyddiadau o'u hardaloedd lleol, o fannau difreintiedig i 'leoedd â chyfle'.

# Asesiad Effaith 1:
# Yr effaith ar gymunedau

## Yr hyn a ddywedodd pobl ...

- "Cydnabyddiaeth gymunedol i bobl ifanc sy'n gwneud rhywbeth cadarnhaol."
- "Mae un person ifanc y buom yn gweithio gydag ef, a oedd gynt yn drafferthus ac yn anodd ei gadw allan o'r system droseddol, wedi dechrau ymweld â chartrefi gofal yn rheolaidd a chefnogi preswylwyr o ganlyniad i'r rhaglen."
- "Mewn rhai achosion, nes i brosiectau ddigwydd, doedd cymdogion ddim yn adnabod ei gilydd."
- "Mae wedi cryfhau'r berthynas â busnesau lleol a'r gymuned ehangach."
- "Mae wedi lleihau'r galw ar wasanaethau."
- "Effaith uniongyrchol a mesuradwy ar ddiogelwch cymunedol."
- "Nawr mae'r ardal yn cael ei gweld fel man cyfle."
- "Manteisiodd y gymuned ehangach ar fwy o ymgysylltu â phobl ifanc, mwy o weithgareddau a llai o ddigwyddiadau gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd lleol.“
- "Cynhaliodd y bobl ifanc ddiwrnod agored i rannu eu canfyddiadau a hefyd i ddiddanu'r gymuned drwy adrodd, perfformio a chanu am y rhyfel."
- "Roedd Plant ac Oedolion yn gallu chwarae gyda'i gilydd yn ystod Ffair y Pentref. Helpodd Ariannu PACT i'r Grŵp brynu Blociau JENGA  mawr, Gêm Giant Connect 4 a rhai eitemau Syrcas. Popeth wedi'i wneud mewn amgylchedd heb unrhyw dechnoleg!"
- "Drwy gymryd rhan a gweithio ar y prosiect rhoddodd ffocws mewn bywyd i'r bobl ifanc a'u hannog i barchu'r gymuned."
- "Nod y prosiect oedd dechrau pethau, er mwyn i gymunedau gyflawni wedi hynny."
- "Mae enghreifftiau go iawn o'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn y gymuned yn dda i roi sicrwydd."
- "Mae'r berthynas rhwng plant a phobl ifanc yn eu harddegau wedi gwella – maen nhw'n helpu ei gilydd."

# Asesiad Effaith 2:
# Yr effaith ar sefydliadau

Dywedodd 97% o ymatebwyr yr arolwg fod eu sefydliadau wedi newid o ganlyniad uniongyrchol i'w cyllid PACT. Dywedodd cyfweliadau na fyddai 75% o'u prosiectau naill ai wedi digwydd neu wedi digwydd ar raddfa lai heb PACT.

### Nid yw'n Popeth yn Ymwneud â'r Arian!

Nid yw'r effeithiau'n gysylltiedig â lefelau ariannu. Yn ychwanegol at arian parod, mae cymorth yn darparu rhwydweithiau gwell, gwell cysylltiadau cymunedol, mwy o gydnabyddiaeth, cymhelliant a chefnogaeth foesol.

### Beth fyddai wedi digwydd pe na baech wedi derbyn cyllid PACT?




### Llenwi'r Bwlch

Er bod dyfarniadau grant unigol fel arfer yn fach, ar sawl achlysur nid oes unrhyw opsiynau ariannu eraill ar gael, ac nid oes gan y rhai sy'n gwneud cais gronfeydd wrth gefn nac adnoddau i syrthio'n ôl arnynt. Mae PACT yn llenwi bwlch hanfodol yn y ddarpariaeth ariannu ar gyfer ymyriadau ar raddfa fach.

### Newidiadau i sefydliadau o ganlyniad i gyllid PACT



# Asesiad Effaith 2:
# Yr effaith ar sefydliadau

## Yr hyn a ddywedodd pobl ...

- "Trawsnewidiol (o ran hyder, cymhelliant a chymorth cychwynnol) yng nghamau cynnar y busnes."
- "Roedd yn cefnogi statws a hygrededd ein sefydliad."
- "Nid yw swm y cyllid yn bwysig – yr allwedd oedd meithrin cysylltiadau cymunedol."
- "Mae o wedi newid a llywio meddwl y bwrdd ymddiriedolwyr yn bendant - ni fyddai'r prosiect/dull hwn o reidrwydd wedi bod ar eu gorwel nhw cyn hyn."
- "Byddai'n anoddach gwneud fy ngwaith [fel SCCH] heb y cyllid hwn."
- "Heb fynediad at y cyllid hwn byddem yn cael trafferth."
- "Mae'n anhygoel o anodd dod o hyd i gyllid ar gyfer rhywbeth mor bwrpasol â hyn."
- "[Heb PACT] ni fyddai fy mhrosiectau wedi digwydd, mor syml â hynny."
- "Rydym wedi sylweddoli bod llawer o wahanol ffyrdd o gefnogi'r gymuned a pha mor gymhleth y gall yr anghenion fod."
- "Rydym wedi sylweddoli bod angen i'n cefnogaeth fod yn amrywiol i fod yn unol â'r amrywiaeth o anghenion y mae'r cyhoedd yn eu cyflwyno i ni. "
- "Mae cymorth gan PACT wedi ein galluogi i gyrraedd unigolion na fyddent fel arall yn cael y cyfle i elwa o'n hyfforddiant addysg diogelwch hanfodol."
- "Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi gweithio ar grant loteri fawr - heb ein grant PACT ni fyddem wedi gallu cais hwnnw."
- "Rydym wedi gallu adolygu ein hen ddull gweithredu a oedd ond yn caniatáu capasiti cyfyngedig i ni helpu nifer cyfyngedig o bobl a mynd â'n cynnig i lwyfannau digidol sydd bellach yn ein galluogi i gyrraedd llawer mwy ac o ddiogelwch a chysur eu cartref eu hunain sydd i rai yn hanfodol.“
- "Mae wedi mynd â'r sefydliad i gyfeiriadau newydd."

# Asesiad Effaith 3:
# Yr effaith ar fuddiolwyr prosiectau

Roedd 100% o'r sylwadau am effaith PACT ar fuddiolwyr prosiectau yn gadarnhaol, gyda thros draean o ymatebwyr yr arolwg yn dweud bod prosiectau wedi arwain at welliannau i agweddau ac ymddygiad.

## Popeth am Berthynas

Yn gyffredin ar draws y mwyafrif llethol o effeithiau unigol ar fuddiolwyr a drafodwyd gan ymatebwyr yr arolwg ac mewn cyfweliad, roedd yna ryw fath o newidiadau i'w perthynas: â'i gilydd, gyda'r heddlu, a chyda chymunedau.

Y prosiectau a ariennir gan PACT yw'r hyn sy'n gweithredu fel 'canghennau olewydden' ac i 'dorri'r iâ' o ran ysgogi perthynas ac mae nifer o effeithiau cadarnhaol yn deillio o hyn ar gyfer unigolion a chymunedau

## Enillion Ymylol

Er bod llawer o brosiectau a ariennir gan PACT yn fach o ran maint a chwmpas, ystyrir eu bod yn chwarae rhan hollbwysig mewn darlun llawer mwy. Roedd un swyddog heddlu yn ei gymharu ag 'enillion ymylol' mewn chwaraeon elît – heb fawr o ymyriadau'n cronni i wneud gwahaniaeth mawr.

Mae hyn yn her o ran cofnodi (pa beth bach a wnaeth y gwahaniaeth?!). Fodd bynnag, yn bennaf, teimlai'r ymatebwyr fod eu prosiectau a ariannwyd gan PACT yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr effeithiau yr oeddent wedi'i gweld.

"Mae'n ddull aml-asiantaeth, ond mae'r cyfan yn helpu"

## Newidiadau i fuddiolwyr prosiectau o ganlyniad i gyllid PACT



# Asesiad Effaith 3:
# Yr effaith ar fuddiolwyr prosiectau

### Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae nifer o brosiectau'n canolbwyntio ar feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau. Weithiau mae hyn yn ymwneud yn benodol â blaenoriaethau plismona, er enghraifft, meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd diogelwch ar y ffyrdd, ond yn amlach, mae'n ymwneud â sgiliau bywyd ehangach, a feithrinir drwy chwaraeon, profiad gwaith, neu fel arall.

"I rai – mae pêl-droed yn achub bywydau"

### Iechyd a Lles

Mae PACT yn cefnogi llawer o glybiau a phrosiectau chwaraeon, ac felly nid yw'n syndod bod manteision iechyd corfforol yn aml yn cael eu riportio fel effeithiau. Mae cysylltiad agos rhwng y rhain ac iechyd meddwl, lles, a'r holl effeithiau eraill sy'n gysylltiedig â chwaraeon tîm a gweithgareddau corfforol.

"Mae'n ymwneud â chyfrifoldeb a pherchnogaeth"

### Safbwyntiau a Meddylfryd

Yn aml, mae prosiectau a ariennir gan PACT yn chwalu rhwystrau, yn dod â phobl at ei gilydd, ac yn herio stereoteipiau a all fodoli o fewn cymunedau. Mae sawl un yn nodi mai'r agwedd 'aml-genhedlaeth' ar eu prosiectau yw eu heffaith fwyaf arwyddocaol.

### Agweddau ac Ymddygiad

Mae llawer o brosiectau a ariennir gan PACT yn darparu strwythur mewn ffordd fach, i'r rheini y mae eu bywydau fod yn anstrwythuredig ac anhrefnus fel arall.

Mae chwaraeon, gwaith, neu bethau eraill, yn rhoi cyfrifoldeb, perchnogaeth o ganlyniadau a thrwy hynny'n gweld gwelliant mewn agwedd ac ymddygiad.

"Mae mynd â phobl allan o ardaloedd difreintiedig i rywle gwahanol, a chael profiad newydd, yn rhwbeth mawr iddyn nhw"

### Hyder a Hunangred

Yn aml, mae prosiectau a ariennir gan PACT yn tynnu pobl parth oddi ar eu llwybr arferol: gwneud pethau newydd, mynd i leoedd newydd, neu siarad a gweithio gyda phobl newydd.

Mae'r rhain yn cael eu nodi yn aml fel pethau sy'n magu hyder ac yn helpu pobl i weld eu bod yn fwy abl nag y byddent wedi'i gredu o'r blaen.

"Mae'n rhoi ymdeimlad o bwrpas"

# Asesiad Effaith 3:
# Yr effaith ar fuddiolwyr prosiectau

## Yr hyn a ddywedodd pobl ...

- "Effeithiau cadarnhaol enfawr o ran sgiliau bywyd, iechyd ac osgoi gwrthdaro."
- "Mae nifer o bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu bellach ar drac cadarnhaol o ganlyniad i ymgysylltu â phrosiectau PACT."
- "Y brif effaith [i'r henoed] yw sicrwydd presenoldeb yr heddlu – yn enwedig i'r rhai sy'n ynysig ac yn unig."
- "Unigolion cryfach, mwy heini, iachach a mwy hyderus."
- "Er bod y cynlluniau'n canolbwyntio ar newid agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, rwy'n credu bod y bobl ifanc wedi ennill mwy o ran eu hiechyd a'u lles personol. Roedd y gweithgareddau'n ymgysylltu â nhw ac yn rhoi cyfle iddynt ymroi o'u hegni, eu hamser a'u cyfathrebu ag eraill. Nid oes gan lawer o'r bobl ifanc y cyfle i wneud hyn yn eu bywydau."
- "Mae'r offer a brynwyd yn cael ei ddefnyddio bob dydd i gydlynu chwilio ac achub ar ran yr heddlu a'r gymuned."
- "Sylweddolodd y bobl ifanc mai dim ond person fel nhw yw'r Uchel Siryf."
- "Nid yw'n ymwneud â'r arian yn unig - mae'r berthynas wedi ein galluogi i wneud pethau eraill."
- "Newidiadau gweladwy i ymddiriedaeth a hyder."
- "Fy rôl fel Swyddog Cymorth Cymuned yr Heddlu yw gweithio'n agos gyda Chymunedau. Drwy gymryd rhan mewn prosiectau PACT nid cyrraedd pen y daith sy'n bwysig ar adegau, ond y daith ei hun hynny yw, cwrdd â ffrindiau da, cysylltiadau defnyddiol, dysgu, ac annog swyddogion iau y gallant wneud cryn wahaniaeth i'w hardal."
- "Mae gan rai pobl ifanc a atgyfeiriwyd gan SCCH, a oedd gynt mewn trafferthion, fudd a strwythur y clwb erbyn hyn."
- "Mae nifer o bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu bellach ar drac cadarnhaol o ganlyniad i ymgysylltu â phrosiectau PACT."

# Asesiad Effaith 4:
# Yr effaith ar gysylltiadau rhwng yr heddlu a'r gymuned

Cred 94% o ymatebwyr yr arolwg fod cysylltiadau rhwng yr heddlu a'r gymuned wedi gwella o ganlyniad i brosiectau a ariannwyd gan PACT.

### Mae Argraffiadau Cyntaf yn Cyfri

Mae prosiectau a ariennir gan PACT yn rhoi'r cyfle cyntaf erioed i lawer o bobl ifanc ymwneud â swyddog heddlu neu SCCH.

Pwysleisiodd ymatebwyr yr arolwg a'r cyfweliad bwysigrwydd yr argraffiadau cyntaf, cadarnhaol hyn: chwalu rhwystrau, meithrin ymddiriedaeth a pharch a newid canfyddiadau'r heddlu.

"Ochr yn ochr â chyllid, mae ein gwaith gyda'r Comisiynydd a'r Uchel Siryf wedi bod yn enfawr"

### Nid hyn yn Ymwneud â'r Heddlu yn Unig

Mae llawer o ymatebwyr yn canmol y gefnogaeth y mae eu prosiectau wedi'i chael gan yr Uchel Siryf, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac ymddiriedolwyr PACT.

Mae'r cymorth hwn nid yn unig yn ysgogol i sefydliadau, ond yn ysbrydoli buddiolwyr prosiectau, yn enwedig pobl ifanc: codi dyheadau a chwalu rhwystrau cymdeithasol. Mae dull 'cyfeillgar ac anffurfiol' pawb sy'n gysylltiedig â PACT yn allweddol i'w effaith.

"Cyfle i ddangos bod person go wir o dan yr iwnifform"

### Perthynas Dwy Ffordd

Weithiau mae sefydliadau'n cysylltu â swyddogion yr heddlu a SCCH ynghylch syniadau am brosiectau, weithiau y ffordd arall, ac unwaith y caiff cydberthnasau eu cadarnhau, mae cronfeydd PACT yn annog sefydliadau a'r heddlu i gydweithio i brofi syniadau newydd ac arloesol

### Nid yw Pethau'n Debyg Ymhobman

I'r lleiafrif nad ydynt yn cyfeirio at welliannau i gysylltiadau rhwng yr heddlu a'r gymuned, mae hyn yn bennaf oherwydd bod prosiectau'n cael eu cyflawni heb unrhyw gyfranogiad uniongyrchol gan yr heddlu (ar ôl y gymeradwyaeth gychwynnol i geisiadau).

Nododd sawl ymatebydd fod rhai swyddogion heddlu a SCCH yn fwy tebygol nag eraill o ddefnyddio arian PACT i feithrin cysylltiadau, ac mewn rhai ardaloedd trefol, bydd SCCH yn gwasanaethu poblogaeth sy'n rhy fawr i gynnal perthynas agos â phawb y mae angen iddynt wneud hynny.

"Nid yw pob SCCH yn gwneud hynny – nid yw llawer ohonynt yn gwybod sut i'w wneud"

# Asesiad Effaith 4:
# Yr effaith ar gysylltiadau rhwng yr heddlu a'r gymuned

## Yr hyn a ddywedodd pobl ...

- "Doedden ni byth yn dychmygu y bydden ni ym Mhencadlys yr Heddlu yn cymysgu gyda Phrif Gwnstabliaid."
- "Mae gennym berthynas dda iawn â Swyddogion Cymorth Cymuned yr Heddlu. Mae PACT wedi bod yn gatalydd allweddol. Mae bellach yn gyfeillgarwch go iawn."
- "Mae pobl ifanc yn gwybod ein bod ni yno i'w helpu. Maen nhw'n fwy tebygol o'n parchu ni a gwrando arnom ni."
- "Mae'n dda cael cyfleoedd i bobl ifanc (gan gynnwys plant bach) siarad â SCCH yn anffurfiol ar eu lefel nhw."
- "I rai, mae'n debygol eu bod nhw wedi  cael eu sgwrs gyntaf erioed gyda swyddog heddlu."
- "Mae'n torri cymaint o rwystrau rhwng SCCH a'r ieuenctid."
- "Y brif effaith (i bobl ifanc) yw perthynas gryfach â'r heddlu"
- "Mae [PACT yn rhoi] cyfle i ddangos bod person go wir o dan yn yr iwnifform."
- "Mae pobl ifanc wedi meithrin cysylltiadau gyda'r heddlu a'u gweld fel rhan o'r gymuned – nid sefydliad di-wyneb yn unig ydyn nhw."
- "Roedd yn bendant wedi gwneud gwelliant – yn enwedig gyda phobl ifanc."
- "Rwy'n credu bod gwella hapusrwydd a chefnogaeth pobl yn y gymuned gyda chysylltiadau rhwng yr heddlu a'r gymuned yn mynd i arwain at ddim ond petha dai i berthynas y gymuned a'r heddlu."
- "Mae wedi chwalu rhwystrau ac wedi meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y tîm plismona cymdogaeth. Rydym wedi derbyn cymaint o adborth cadarnhaol."
- "Mae swyddogion o Dîm Canol y Dref yn mynychu sesiynau côr yn rheolaidd gan fod gan lawer o'r cyfranogwyr dan sylw hanes gyda'r system cyfiawnder troseddol. Maent wedi manteisio ar hyn fel cyfle gwych i adeiladu ar drefniadau cymunedol a phartneriaeth ac i ddatblygu perthnasoedd datrys problemau newydd ac arloesol, wrth leihau risg, galw a throseddu, gan dynnu pobl o ffordd o fyw troseddu/cosbi cylchol i ddechrau cynhwysiant a sefydlogrwydd."

# Asesiad Effaith 5:
# Yr effaith ar flaenoriaethau plismona

**Mae 98% o ymatebwyr yr arolwg yn credu bod eu prosiectau wedi effeithio'n uniongyrchol ar flaenoriaethau plismona, yn enwedig ymddygiad gwrthgymdeithasol.**

### Gwneud Plismona'n Haws

Drwy gyfweliadau un-i-un, cytunodd swyddogion yr heddlu a SCCH yn unfrydol fod prosiectau a ariannwyd gan PACT yn cael effaith uniongyrchol ar eu gallu i wneud eu gwaith yn dda. I lawer, maent yn paratoi'r ffordd i feithrin perthynas gref o fewn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Nid oes unrhyw opsiynau ariannu arall yn agored i swyddogion yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar gyfer gweithgareddau o'r math hwn.

### Gweld y Gorwel

Er bod y rhan fwyaf o sefydliadau'n credu'n gryf bod eu prosiectau'n effeithio ar flaenoriaethau plismona, i lawer, mae hyn yn rhywbeth, sydd mewn gwirionedd yn anodd iawn ei fesur, ei briodoli a'i gadarnhau. Fodd bynnag, mae straeon unigol am ganlyniadau llwyddiannus, a phrofiadau cynigion yr heddlu a SCCH yn cefnogi'r teimladau hyn.

### Llai o Alw am Wasanaethau

Yn ogystal ag effeithio'n uniongyrchol ar flaenoriaethau plismona, credai llawer o ymatebwyr fod prosiectau a ariannwyd gan PACT wedi helpu i leihau'r galw am amser yr heddlu mewn rhai meysydd, gan ganiatáu i amser ac adnoddau hanfodol gael eu defnyddio'n fwy effeithiol.

## "Heb PACT, fyddwn i ddim cystal SCCH  ag ydwi"

### Y blaenoriaethau plismona mae prosiectau a ariennir gan PACT wedi cael effaith arnynt.



# Asesiad Effaith 5:
# Yr effaith ar flaenoriaethau plismona

## Yr hyn a ddywedodd pobl ...

- "Pan fydd pobl yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi ac yn cael eu hynysu, nid yw'r dewisiadau y maent yn eu gwneud yn aml yn rhai da."
- "Cawsom sesiwn gyda chyn-ddefnyddwyr cyffuriau - daeth y bobl ifanc i gyfarfod â nhw ac fe wnaethon nhw drafod eu profiadau yn y gorffennol gyda'r bobl ifanc mewn ymgais i'w hatal rhag bywyd bywyd o gyffuriau a throseddu."
- "Mae ymyrryd ac ymgysylltu â phobl ifanc leol yn gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cyllid PACT wedi cyfrannu at hyn."
- "Mae ofn trosedd bob amser yn broblem. Mae fy mhresenoldeb wedi helpu i leihau hyn yn sylweddol. Dywedodd aelod o'r cyhoedd yn ddiweddar fod gweld swyddog ar y rhawd gyda gwên sy'n hawdd siarad â hi yn rhoi cymaint o foddhad ag aelod criw caban awyren â gwên pan fydd yr awyren yn taro cythrwfl!"
- "Mae ymgysylltu â phobl ifanc wedi helpu i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedi arwain at leihad yn yr ofn o droseddu."
- "Mae'n rhoi ffocws a ffordd i bobl ifanc am fynegi eu creadigrwydd sydd fel arfer yn achos ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth iddynt gael gwared ar eu rhwystredigaeth."
- "Mae pobl ifanc wedi mynychu sesiynau ar adegau pan oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn digwydd o'r blaen."
- "Mae'r adborth cyffredinol gan arweinwyr cymunedol yn awgrymu bod ymddygiad cyffredinol grwpiau lleol o bobl ifanc wedi gwella."
- "Mae gan bobl ifanc berthynas lawer gwell gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol lleol o ganlyniad i ddigwyddiadau a gefnogir gan PACT. Mae lefelau cyfathrebu yn dda."
- "Rwy'n teimlo y gallai'r gwaith fod wedi lleihau'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal, ond oherwydd niferoedd isel o bobl ifanc [yn cymryd rhan] ni allwn ddweud yn bendant mai dyma'r hyn a gyflawnwyd gennym."
- "Mae wedi helpu'n aruthrol i fynd i'r afael â'r problemau rydyn ni wedi'u cael."

# Astudiaeth Achos:
# Gavin Eastham: Cobra Life CIC

**Mae Cobra Life CIC yn fenter gymdeithasol sydd wedi'i lleoli yn Shotton, Sir y Fflint, ac dan arweiniad Gavin Eastham, arbenigwr crefft ymladd gyda dros 33 mlynedd o brofiad.**

Mae ei raglenni nid yn unig yn addysgu crefft ymladd, ond yn canolbwyntio ar feithrin cymeriad a sgiliau bywyd, a ddatblygwyd drwy gyfrwng hyfforddiant crefft ymladd. Cefnogwyd ei raglen addysg a datblygiad plant 'Llwyddiant am Oes' gan PACT am y 2 flynedd ddiwethaf drwy'r gwobrau 'Eich Cymuned, Eich Dewis', gan ddarparu mynediad â chymhorthdal i'r rhaglen ar gyfer pobl ifanc yn Sir y Fflint a'r ardal o'i amgylch.

Daeth Gavin yn ymwybodol gyntaf o PACT a'r gefnogaeth y gallai ei gynnig ar lafar, gydag Uchel Siryf Clwyd yn gwneud y cyflwyniad cyntaf. Roedd y ffurflen gais ei hun "braidd yn fawr" ond yn syml i'w chwblhau, ac roedd Dave Evans ar ddiwedd y ffôn pryd bynnag yr oedd unrhyw beth yn aneglur. Roedd yr effeithiau ar y bobl ifanc a gymerodd ran yn y rhaglenni 'Llwyddiant am Oes' a ariannwyd gan PACT yn glir:

- Roedd 71% yn teimlo'n fwy hyderus.
- Teimlai 68% fod eu gallu i osod nodau wedi cynyddu.
- Teimlai 57% fod eu gallu i ganolbwyntio wedi gwella.
- Roedd 49% yn teimlo'n iachach
- Roedd 60% yn teimlo'n fwy cadarnhaol.

"Newid meddylfryd pobl ifanc er gwell – yw'r mwyaf o'r holl newidiadau posibl"

Yn ogystal â'r effeithiau uniongyrchol hyn, roedd yna newid parhaol i safbwyntiau, gyda phwysigrwydd meithrin sgiliau bywyd bellach ar flaen meddyliau rhieni, athrawon, ac yn hollbwysig, y bobl ifanc eu hunain - gan arwain at gydweithio parhaus gyda'r ysgolion a gymerodd ran. Ar gyfer Gavin, gyda chefnogaeth gychwynnol PACT yn dod yn fuan ar ôl lansio Cobra Life, rhoddodd hwb 'trawsnewidiol' i hyder a chymhelliant – hebddo, byddai cynnal y rhaglen 'Llwyddiant am Oes' wedi bod yn heriol iawn: nawr, mae'n hunangynhaliol ac yn tyfu. Wrth symud ymlaen, mae Gavin yn awyddus i feithrin cysylltiadau â Heddlu Gogledd Cymru ac archwilio cyfleoedd i gydweithio ymhellach. Byddai mynediad at ystadegau a gwybodaeth sy'n dangos perthynas y prosiect â chyfraddau troseddu lleol yn cael ei groesawu, gan gefnogi datblygiad yn y dyfodol.

"Mae'n fwy na chlwb karate, mae'n academi arweinyddiaeth - yn creu arweinwyr ar gyfer y dyfodol"

# Astudiaeth Achos:
# Denise Chadwick: Splash

**Ffurfiwyd Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash yn 2014, gyda'r prif nod o redeg Canolfan Hamdden Plas Madoc, a darparu gweithgareddau lles cymdeithasol, hamdden, addysg, diwylliannol, y celfyddydau, iechyd a lles er budd cymunedau Sir Wrecsam a thu hwnt.**

Denise Chadwick yw rheolwr cyffredinol Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash ac mae wedi sicrhau dau grant PACT i'r Ymddiriedolaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan weithio gyda phobl ifanc yn ardal Plas Madog.

Daeth Denise yn ymwybodol o PACT am y tro cyntaf a'r gefnogaeth y gallai ei chynnig drwy SCCH lleol Plas Madog yr oedd gan y sefydliad berthynas gref â hwy yn draddodiadol. Roedd prosiect PACT cyntaf Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash yn cynnwys darparu cyflogaeth â thâl i ddau berson ifanc sydd mewn perygl o droseddu - a nodwyd drwy sgwrs â SCCH. Er bod hyn yn wahanol iawn i brosiect nodweddiadol a ariannwyd gan PACT, anogwyd Denise i wneud cais, gyda chefnogaeth tîm PACT drwyddo draw, ac roedd y broses yn gymharol syml.

### "Mae'r ardal bellach yn cael ei gweld fel man cyfle"

Roedd yr effaith ar y ddau berson ifanc a gyflogwyd drwy'r prosiect yn drawsnewidiol. Fel unigolion, nid ydynt bellach yn cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol, maent wedi dod yn fodelau rôl cadarnhaol i'w cyfoedion, ac mae eu meddylfryd wedi newid - gan weld yr ardal bellach fel 'man cyfle'. Gosododd y prosiect gynsail hefyd a arweiniodd at fwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc eraill o'r ardal, ac mae wedi cael effaith uniongyrchol ar feddylfryd ymddiriedolwyr y sefydliad o ran sut y gellir mynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn greadigol ac yn rhagweithiol.

### "Heb PACT, ni allem fod wedi cynnig y rhaglen o weithgareddau a wnawn yn awr"

Estynnodd ail brosiect yr Ymddiriedolaeth allan at niferoedd mwy o bobl ifanc, gan ymgysylltu â hwy drwy ddarparu mynediad i weithgareddau ffitrwydd, unwaith eto gydag effaith arsylwadwy ar lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ar draws a thu hwnt i'r prosiectau hyn, mae meithrin ymddiriedaeth, cydberthnasau a pharch at ei gilydd wedi bod yn allweddol i lwyddiant, gyda'r llwyddiannau mwyaf yn cael eu cyflawni lle mae SCCH, Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash a'r gymuned eu hunain wedi gallu cydweithio agosaf.

# Astudiaeth Achos:
# Iona Beckmann: Heddlu Gogledd Cymru

**Mae Iona Beckmann yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd wedi'i lleoli yn Ynys Môn.**

Gan ddefnyddio cefnogaeth PACT yn fras yn ei gwaith, mae Iona wedi bod yn ymwneud â phrosiectau eang mewn ymateb i anghenion ei chymuned, o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i gefnogi mamau ifanc, ac o hyrwyddo diogelwch tân a diogelwch ar y ffyrdd i helpu pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae gweithio gyda'r ifanc, yr henoed a meithrin cysylltiadau ar draws y cenedlaethau wedi bod yn themâu cylchol ar draws gwaith Iona.

Fel SCCH, mae Iona o'r farn bod y broses o wneud cais am gyllid PACT yn syml, yn wir, gan bwysleisio 'mae'n rhaid ei chadw'n syml neu nid yw pobl yn mynd i wneud cais amdano'. Yn y cymunedau bach a gwledig lle mae'n gweithio, mae'n ei chael hi'n hawdd cydweithio â phartneriaid cymunedol, ond mae'n nodi bod hyn yn debygol o fod yn fwy o her i SCCH mewn ardaloedd mwy poblog.

"Yr allwedd yw prosiectau syml sy'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr"

Ar gyfer Iona, ynddynt eu hunain mae prosiectau a ariennir gan PACT yn fach iawn ac yn syml iawn, ond gyda'i gilydd, maent yn cyfuno i wneud gwahaniaeth enfawr – gan gynna'r tân i gymunedau dyfu a datblygu gyda'i gilydd, gan ddod o hyd i atebion parhaol. Mae'n dyfynnu enghreifftiau o brosiectau a ariennir gan PACT sy'n annog cymdogion i siarad â'i gilydd am y tro cyntaf, gan adeiladu ymdeimlad o falchder cymunedol, a helpu llawer o bobl a oedd gynt yn ymwneud â throseddu neu sydd mewn perygl o droseddu i gael eu bywydau'n ôl ar y trywydd iawn, gan esbonio 'nad yw swm y cyllid yn bwysig – yr allwedd yw meithrin cysylltiadau cymunedol.'

Mae Iona yn onest am yr effaith y mae PACT wedi'i chael ar ei rôl broffesiynol ei hun – 'heb PACT' meddai, 'Fyddwn i ddim wedi bod cystal SCCH ag yr ydwyf. Mae wedi chwalu rhwystrau, cryfhau sawl perthynas ac weithiau, mae'r effeithiau a gyflawnwyd wedi wedi gwneud i Iona grio.' 'Mae PACT yn rhan fawr o deulu'r Heddlu' Dywed Iona – 'pe baent yn gorffen byddwn i'n ymddeol!'

"Heb gyllid PACT, fyddwn i ddim wedi bod cystal â SCCH ag yr ydwyf "

Mewn gair:

# Prosiectau ariannwyd gan PACT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addysgol | Angen | Angenr-heidiol | Aml-genhedlaeth | Arloesol |
| Ataliol | Atyniadol | Boss! | Buddiol | Cefnogol |
| Cydweith-redol | Cymunedol | Dymunol | Effeithiol | Egnïol |
| Emosiynol | Enillion Cynydd-rannol | Gobeithiol | Grêt | Grymuso |
| Gwella | Gwerth chweil | Gwobrwyo | Gwych | Gwych |
| Gwych | Hanfodol | Hwyl | Llwyddiant | Newid Bywyd |
| Partneriaeth | Parhaus | Pleserus | Positif | Procio Meddwl |
| Rhyfeddol | Twf | Ymgysylltu | Ymgysylltu â'r Gymuned | Ysbrydoli |

Rhif Elusen Gofrestredig: 1071628

www.pactnorthwales.co.uk
01745 588516
enquiries@pactnorthwales.co.uk

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan Mike Corcoran gydag Ymddiriedolaeth  Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned